**PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD**

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Hydref 2012**

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL**: | Y Cynghorydd H Eifion Jones – Cadeirydd<br><br>Y Cynghorwyr C L Everett, W I Hughes, Aled M Jones, Eric Roberts, Elwyn Schofield, Ieuan Williams, Selwyn Williams. |
| **WRTH LAW**: | Prif Weithredwr<br>Dirprwy Brif Weithredwr<br>Swyddog Cyfathrebu (GJ)<br>Swyddog Pwyllgor (MEH)<br>Cynorthwy-ydd Gweinyddol (SAC) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Y Cynghorwyr Mrs Fflur M Hughes, G W Roberts OBE. |
| **HEFYD YN BRESENNOL**: | Y Cynghorwyr W J Chorlton, Bryan Owen. |

---

Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r Swyddogion a'r Aelodau i'r cyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

**1. ETHOL IS-GADEIRYDD**

Etholwyd y Cynghorydd Ieuan Williams yn Is-gadeirydd.

**2. DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni chafwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**3. SEFYDLU PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Prif Weithredwr ar yr uchod.

Cyfeiriodd y Prif Weithredwr at y prif faterion yn yr adroddiad a nododd fod Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn rhoi dyletswydd ar yr awdurdod lleol i sefydlu Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. Prif swyddogaeth y pwyllgor fydd sicrhau fod y Cyngor yn cael ei redeg yn dda, hyrwyddo sgriwtini cadarn a phroses gwneud penderfyniadau sy'n agored ac yn dryloyw a darparu cyfleon ar gyfer ymgysylltiad cymunedol effeithiol.

Gyda'r Cyngor hefyd yn moderneiddio'r modd y mae'n gweithio, disgwylir hefyd y bydd y Pwyllgor yn canolbwyntio ar gyfleon hyfforddiant a datblygiad ar gyfer Aelodau gan gynnwys y defnydd o TGCh i'w helpu i gyflawni eu swyddogaethau.

Dywedwyd ymhellach fod Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i benodi Uwch Swyddog i arwain ym maes Gwasanaethau Democrataidd.

Materion a godwyd gan Aelodau'r Pwyllgor:-

- Roedd rhai aelodau'n anghyfforddus gyda phenodi Uwch Swyddog i swydd Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ar sail dros dro yn hytrach na pharhaol;
- Dylid cysylltu gydag awdurdodau lleol sydd o faint tebyg i Ynys Môn er mwyn gweld pa weithdrefnau a fabwysiadwyd ganddynt o ran Gwasanaethau Democrataidd;
- Angen gwella TGCh ar gyfer Aelodau;
- Ymgeiswyr posibl ar gyfer etholiadau'r Cyngor Sir a gynhelir mis Mai nesaf i fod yn ymwybodol fod yr awdurdod yn bwriadu gwella ei gyfleusterau TGCh, h.y. bydd Papurau Rhaglenni ar gael ar y rhyngrwyd yn hytrach na chopïau papur fel sy'n digwydd ar hyn o bryd;

Yn dilyn trafodaethau pellach, **PENDERFYNWYD**:

- Cymeradwyo penodi'r Pennaeth Polisi fel Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro hyd oni fydd y mater yn cael ei adolygu gan y Cyngor newydd yn dilyn yr etholiadau ym mis Mai 2013;

- Mabwysiadu'r disgrifiad swydd drafft ar gyfer swyddogaeth a chyfrifoldebau Cadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor;

- Argymell i'r Cyngor Sir:-

    - Ei fod yn ymestyn cylch gorchwyl y Pwyllgor i gynnwys cyfrifoldebau am y rhaglen hyfforddi a datblygu Aelodau gan gynnwys eu sgiliau TG a chefnogaeth ar gyfer hynny;

    - Bod y Pwyllgor yn cynnal tri chyfarfod cyffredinol yn ychwanegol at ei Gyfarfod Blynyddol bob blwyddyn, gyda'r hawl i drefnu cyfarfodydd pellach yn ôl yr angen;

- Penderfynu ar ei raglen waith hyd at 30 Ebrill 2012.

**Y CYNGHORYDD H EIFION JONES**
**CADEIRYDD**